

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cylchfan Pont Lesneven,
Caerfyrddin i Gylchfan Sanclêr,
Sanclêr, Sir Gaerfyrddin)
(Gwahardd Troeon Pedol) 202-

The A40 Trunk Road (Pont
Lesneven Roundabout, Carmarthen
to St Clears Roundabout, St Clears,
Carmarthenshire) (Prohibition of
U-Turns) Order 202-

Gwnaed 202-

Made 202-

Yn dod i rym 202-

Coming into force 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin i Gylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 202- a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ***** 202-.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Pont Lesneven Roundabout, Carmarthen to St Clears Roundabout, St Clears, Carmarthenshire) (Prohibition of U-Turns) Order 202- and this Order comes into force on ***** 202-.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) O.S. 1990/1656.

(2) S.I. 1990/1656.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

mae i “llain ganol” yr ystyr a roddir i “central reservation” yn Atodlen 1 i Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016(1).

Gwahardd troeon pedol

3. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd naill ai ar gerbyttffordd tua'r gorllewin neu ar gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wneud tro pedol er mwyn mynd i'r cyfeiriad arall drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol cylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin.

Esemptiadau

4. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd wneud tro pedol drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn—

- (a) os yw'r cerbyd i'w ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
- (b) os yw'r person sy'n rheoli'r cerbyd yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Caerfyrddin – Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 1997(2) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig **** 202-

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

- (1) O.S. 2016/362.
- (2) O.S. 1997/1935.

Interpretation

2. In this Order—

“central reservation” (“*llain ganol*”) has the meaning given in Schedule 1 of the Traffic Signs Regulations and General Directions 2016(1);

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard trunk road.

Prohibition of U-turns

3. Except as provided in article 4, no person may cause or permit any vehicle proceeding in either the westbound or eastbound carriageway of the trunk road to make a U-turn so as to proceed in the opposite direction through any of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road that extends from its junction with the western side of Pont Lesneven roundabout, Carmarthen to its junction with the eastern side of St Clears roundabout, St Clears, Carmarthenshire.

Exemptions

4. A person may cause or permit any vehicle to make a U-turn through any of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in article 3 of this Order if—

- (a) the vehicle is to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or
- (b) the person in control of the vehicle is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Revocation

5. The A40 Trunk Road (Carmarthen - St Clears, Carmarthenshire) (Prohibition of U-Turns) Order 1997(2) is revoked.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

**** 202-

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

- (1) S.I. 2016/362.
- (2) S.I. 1997/1935.